| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Archwilio Cymunedau |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 5 Tachwedd 2015 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Y Cynghorydd Eryl Williams / Jackie Walley - Pennaeth Cefnogi Addysg a Chwsmeriaid |
| Awdur yr Adroddiad: | Jackie Walley - Pennaeth Cefnogi Addysg a Chwsmeriaid |
| Teitl: | Polisi Cludiant Ysgolion |

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch adolygiad o'r Polisi Cludiant Ysgolion, fel y gofynnwyd yn y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 10 Medi 2015.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Yng Ngweithdy Rhyddid a Hyblygrwydd 17 Mehefin 2014 cymeradwyodd yr Aelodau Etholedig y bwriad o gynnal adolygu'r Polisi Cludiant Ysgolion. Diwedd y broses hon oedd Polisi diwygiedig a gafodd ei roi ar waith o fis Medi 2015. Ar 10 Medi, gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, fel eitem frys, i'r Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg fod yn bresennol i drafod pryderon diweddar a fynegwyd gan Aelodau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n ystyried yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd yma.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Yn y cyfarfod Archwilio Cymunedau ar 10 Medi 2015, gofynnodd yr Aelodau i'r wybodaeth atodol ganlynol gael ei ddarparu:

- Llinell amser o ddigwyddiadau yn amlinellu'r penderfyniadau ac ymgynghoriadau a wnaed drwy gydol y broses o ddiwygio'r Polisi Cludiant Ysgolion.
- Cadarnhad o'r broses apelio.
- Disgrifiad o'r rheol 3 milltir ar gyfer teithio i'r ysgol uwchradd am ddim, gydag esboniad clir sut y caiff llwybrau peryglus eu hystyried o fewn y polisi.
- Eglurhad clir o'r polisi consesiynol.

4.2 <u>Llinell Amser</u>
Mae Atodiad 1 sydd ynghlwm, yn cynnwys y llinell amser o ddigwyddiadau sy'n cynnwys y penderfyniadau cynharaf a'r ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd â rhieni/gofalwyr a oedd wedi derbyn cludiant o'r blaen. Mae Atodiad 2 ynghlwm hefyd yn cynnwys copi o'r llythyr ymgynghori a anfonwyd at rieni a gofalwyr.

4.3 Proses Apeliadau

Mae'r broses apelio fel yr amlinellir yn Adran 7 y Polisi Cludiant Ysgolion i'w weld isod:

**7.1 Fel arfer, rhoddir gwybod i riant, gwarcheidwad neu ofalwr yn ysgrifenedig o fewn 15 diwrnod gwaith i ddyddiad cais aflwyddiannus. Rhoddir manylion am eu hawl i apelio hefyd.**

**7.2 Gall y rhiant, gwarcheidwad neu ofalwr wneud apêl yn ysgrifenedig i admissions@denbighshire.gov.uk; yn nodi eu rhesymau dros apelio yn erbyn y penderfyniadau.**

**7.3 Bydd Swyddog Annibynnol yn ystyried yr apêl yn erbyn y Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ac yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd.**


**7.4 Bydd y rhiant, gwarcheidwad neu ofalwr yn cael ei hysbysu o ganlyniad eu hapêl yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith i ddyddiad derbyn eu hapêl, cyn belled nad oes angen unrhyw wybodaeth bellach i gefnogi'r penderfyniad. Yn dilyn y penderfyniad hwn nid oes unrhyw sail arall dros apelio.**

O ran y broses hon, y 'Swyddog Annibynnol' fydd Swyddog Sir Ddinbych nad oedd yn gysylltiedig â'r asesiad o'r cais. Bydd y broses apelio yn ystyried a yw'r Polisi wedi ei ddefnyddio yn gywir ac yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n apelio am y penderfyniad hwnnw. Os yw'r sawl sy'n apelio yn dymuno, yna gallant apelio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac mae eu manylion cyswllt wedi cael eu darparu yn ôl y gofyn.


4.4 **Y Rheol 3 Milltir ar gyfer Cludiant Ysgolion Uwchradd**

Os yw'r ysgol addas agosaf dros 3 milltir o bellter cerdded yna mae angen darparu cludiant ysgol am ddim. Nodir nad y pellter cerdded o reidrwydd yw'r pellter byrraf ar y ffordd. Dyma'r llwybr byrraf y gall plentyn, gyda chwmni yn ôl yr angen, gerdded ar ei hyd yn rhesymol ddiogel. Felly, bydd y mannau codi yn cael eu darparu o fewn 3 milltir o'r cartref gyda theithio am ddim i'r ysgol addas agosaf. Mae'r polisi yn amlinellu mai cyfrifoldeb rhieni/gofalwyr yw gwneud trefniadau i fynd â'u plant i'r man codi hyd yn oed os yw'r daith rhwng y cartref a'r man codi wedi ei ddynodi'n beryglus.

Ar ben hynny, nodir os yw rhieni/gofalwyr yn dewis anfon eu plant i ysgol nad yw'n ysgol addas agosaf, yna ni ddarperir cludiant am ddim.



Os yw'r ysgol addas agosaf o fewn 3 milltir i'r cartref, nid yw cludiant yn cael ei ddarparu oni bai bod y llwybr dynodedig yn beryglus. Lle caiff ei ddynodi'n beryglus caiff cludiant i'r ysgol ei ddarparu yn rhad ac am ddim o fan codi priodol.




4.5 Y Polisi Cludiant Consesiynol

O fewn y Polisi newydd, mae adran 4.12 yn ymdrin â Chludiant Consesiynol, mae dyfyniad ohono isod:

**Cludiant Consesiynol**

**Bydd yr Awdurdod yn ystyried cludiant consesiynol os nad yw dysgwr yn gymwys i gael cludiant am ddim yn unrhyw un o'r meini prawf a nodir yn y polisi hwn ond y gellir ei roi ar lwybr cludiant contract presennol sydd â seddi gwag. Ond, byddai'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:**

**(a) Codir tâl rhesymol bob tymor. Byddwn yn adolygu hyn yn flynyddol**

**(b) Gellir dileu'r consesiwn ar fyr rybudd pan na fydd seddau ar gael**

**(c) Ni ellir rhoi tocynnau rhatach ar fyr rybudd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd gan fod angen canfod a oes llefydd dros ben ar gerbydau contract**

**(d) Ni ellir cynnig tocynnau teithio rhatach pan fo cludiant cyhoeddus ar gael ochr yn ochr â chludiant ysgol**

O ran y broses a ddilynwyd, bydd adran Cludiant Sir Ddinbych yn archwilio yn rheolaidd i ganfod faint o lefydd am ddim sydd yn cael eu derbyn er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r capasiti uchaf posibl ar y cludiant a ddarperir.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r newidiadau i'r Polisi Cludiant Ysgolion wedi cefnogi'r flaenoriaeth o "Wella Addysg" ac yn sicrhau hefyd fod y ddarpariaeth yn gost-effeithiol ac yn cynnig gwerth am arian.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae’r cynnig wedi cael effaith uniongyrchol ar y Gwasanaeth Cludiant Teithwyr. O bosibl, mae'n sicrhau arbedion o fwy na £200,000. Cafodd dadansoddiad llawn o'r arbedion a amcangyfrifwyd eu darparu yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 11 Medi, 2014.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

7.1 Mae'r Asesiad gwreiddiol o Effaith ar Gydraddoldeb ar y Polisi diwygiedig wedi dangos nad oes unrhyw grŵp dan unrhyw anfantais anghymesur o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Cafodd yr adroddiad hwn ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 11 Medi 2014.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn gyda'r holl fudd-ddeiliaid ar y newidiadau Polisi a chafodd y canfyddiadau eu cyflwyno i’r Cabinet ar 30 Medi 2014.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Cytunodd Aelodau Etholedig i adolygu’r Polisi Cludiant yn y Gweithdy Rhyddid a Hyblygrwydd i Aelodau a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2014. Eglurwyd, gan fod y gwasanaeth yn gorwario ar hyn o bryd, mai bwriad yr adolygiad fyddai canfod arbedion er mwyn dod â’r gwasanaeth i sefyllfa o fod yn adennill costau. O’r herwydd, bydd yr arbedion posibl yn cael eu cadw o fewn y gwasanaeth er mwyn unioni'r diffyg parhaus yn y gyllideb. Bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus a bydd unrhyw arbedion y tu hwnt i'r hyn y mae ei angen i’r gwasanaeth adennill costau yn cael eu dynodi fel arbedion corfforaethol wrth bennu cyllidebau yn y dyfodol

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r cynnig wedi arwain at gyhoeddusrwydd anffafriol i'r Cyngor ac mewn sylwadau a chwynion cyhoeddus anffafriol. Mae'r Cyngor yn ymateb i'r rhain tra'n sicrhau bod y Polisi yn cael ei gymhwyso'n gywir.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Deddf Safonau a Sefydliadau Ysgolion (Cymru) 2013
Deddf Addysg 2002
Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009